**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

**National Assembly for Wales**
Public Accounts Committee

Andrew Slade
Cyfarwyddwr Cyffredinol – Grŵp yr Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Llywodraeth Cymru

14 Ionawr 2020

Annwyl Andrew,

**Maes Awyr Caerdydd**

Fe ysgrifennoch atom ar 13 Rhagfyr 2019 ynghylch y benthyciad newydd o £21.2 miliwn a gynigiwyd i Faes Awyr Caerdydd. Trafododd y Pwyllgor y llythyr hwn ar 6 Ionawr 2020 a mynegodd siom gyda'r diffyg manylder yn eich gohebiaeth ynghylch diben y benthyciad.

Roedd y Pwyllgor hefyd yn synnu bod yr ohebiaeth wedi'i marcio'n 'gyfrinachol yn fasnachol' o ystyried ei bod mewn gwirionedd yn ailadrodd gwybodaeth a oedd eisoes yn gyhoeddus, gan gynnwys mewn Datganiad a gyhoeddwyd gan Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar 21 Hydref 2019. O ystyried hyn, byddem yn croesawu esboniad pam yr oeddech o'r farn ei bod yn angenrheidiol trin eich llythyr yn y modd hwn.

Yn ogystal â'r uchod, nodwn hefyd fod Llywodraeth Cymru yn flaenorol wedi rhoi lefel uwch o fanylion i'r Pwyllgor ynghylch benthyciadau eraill, gan gynnwys yr hyn y cyfeiriwyd ato yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Lywodraeth Cymru yn Caffael a Pherchnogi Maes Awyr Caerdydd, a gyhoeddwyd yn 2016.

Fel y gwyddoch, mae'r benthyciad ychwanegol yn cynrychioli swm sylweddol o arian trethdalwyr a chyllid yw hwn a fyddai fel arall ar gael i sefydliadau eraill ar delerau mwy ffafriol i Lywodraeth Cymru a gyda llai o risg o bosibl i'r pwrs cyhoeddus.

Am y rhesymau uchod ac o ran budd sylweddol i'r cyhoedd ym Maes Awyr Caerdydd, gofynnwn i chi ddarparu dadansoddiad pellach o fanylion pwrpas bwriadedig y benthyciad o £21.2m ynghyd â'r telerau ad-dalu er mwyn i ni allu

bod yn hyderus y bydd wedi'i wneud ar sail fasnachol sy'n cynrychioli gwerth am arian ar gyfer y pwrs cyhoeddus.

Yn olaf, yn sgil y newyddion ar 13 Ionawr 2020 ynghylch yr anawsterau ariannol sy'n wynebu Flybe, mae'r Pwyllgor yn pryderu am y goblygiadau y gallai hyn eu cael i Faes Awyr Caerdydd. Fel y gwyddoch, mae Flybe yn cyfrif am nifer sylweddol o siwrneiau gan deithwyr yn y maes awyr bob blwyddyn ac yn ystod tystiolaeth yn 2016 dywedwyd wrthym y byddai Flybe yn gatalydd ar gyfer twf y maes awyr.

A fyddech cystal â nodi, yn fanwl, y goblygiadau i Faes Awyr Caerdydd pe bai Flybe yn rhoi'r gorau i weithredu a'r camau y mae Llywodraeth Cymru a Holdco yn eu cymryd i liniaru'r rhain, gan gynnwys pa drafodaethau, os o gwbl, y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch dyfodol Flybe.

Byddai hefyd yn ddefnyddiol derbyn gwybodaeth am unrhyw gynigion neu gymhellion ariannol a wneir i Flybe i'w denu i Faes Awyr Caerdydd, megis y ffioedd neu'r taliadau sy'n cael eu hepgor am hedfan i Gaerdydd ac oddi yno. Rydym yn deall bod Flybe wedi arwyddo cytundeb 10 mlynedd pan agorodd ei safle yng Nghaerdydd yn 2015. A fyddech cystal á nodi unrhyw oblygiadau i'r trefniadau cytundebol hyn sy'n deillio o'r anawsterau sy'n wynebu Flybe ar hyn o bryd.

Byddwch yn ymwybodol bod y Pwyllgor wedi eich gwahodd i ddod i sesiwn dystiolaeth bellach ar Faes Awyr Caerdydd ar 2 Mawrth 2020 pan fyddwn yn archwilio manylion y benthyciad ochr yn ochr â nifer o bryderon sy'n codi o gyfrifon blynyddol Meysydd Awyr Caerdydd ar gyfer 2018-19. Yn ogystal ag estyn y gwahoddiad hwnnw, bydd cyfarfod y Pwyllgor nawr yn cael ei gynnal yn y Senedd.

Yn gywir,

**Darren Millar AC**
**Cadeirydd (Dros Dro)**